

LLANFAIR YN NEUBWLL CYNGOR CYMUNED

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Nos Fawrth 15 Tachwedd 2022

Presennol: Cynghorydd Siân Enfys Jones – Cadeirydd

Cynghorwyr: Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Gordon Owen, Lowri Owen, William Victor Owen, Sharon Parry, Einir Thomas, Gareth Thomas a Dyfed Williams.

Hefyd yn bresennol: - Ken Taylor - Cynghorydd Sir.

Mai Owen - Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol.

1. **Ymddiheuriadau:** dim.

2. **Datganiad o Ddiddordeb** – dim.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Derbyniwyd bod cofnodion 18 Hydref 2022 yn gywir (Cynigiwyd Cyng. Celfyn Furlong, eilio Cyng. G.O. Jones.)

4. **Materion yn codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Bu Cyng. Gareth Thomas a'r clerc mewn cyfarfod gyda'r contractwr i drafod y gwaith ar y safle. Y cynnig oedd trwsio'r ffens bresennol ac ymestyn y gwrychyn naturiol trwy blygu'r ddraenen wen sydd wedi gordyfu ar naill ochr y bwlch. Byddai hyn yn creu rhwystr cryf, atal mynediad i'r ffos ac annog mwy o fywyd gwyllt. Cytunwyd i fwrw ymlaen â hyn. Cynigiodd Cyng. Furlong archwilio'r meinciau a dewis pa rai oedd werth eu trin cyn i benderfyniad gael ei wneud i brynu rhai yn eu lle. Byddai'r clerc yn chwilio am amcangyfrifon pellach ar gyfer archwilio'r offer yn flynyddol.

4.2 Diffibriliwr – Roedd Cyng. G.O. Jones wedi cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â lleoli diffibriliwr wrth Stad Rhen Ysgol ond roedd wedi cael gwybod bod yn rhaid i'r safle dewisedig fodd gyda mynediad i gyflenwad trydan. Roedd cost gosod cyflenwad newydd yno'n debygol o fod yn afresymol felly cytunwyd i chwilio am safle lle'r oedd cyflenwad pŵer yno'n barod. Yn y cyfamser byddai'r Cyng. G. O. Jones yn cysylltu gydag elusen GIG Gogledd Cymru sef Awyr Las am gyngor ar y ffordd orau i symud ymlaen gyda'r prosiect.

4.3 Peiriant dosbarthu pecynnau gwastraff cŵn - roedd gawith hwn yn parhau ar hwn ac roedd Cyng. Lowri Owen eisoes wedi darganfod un neu ddau o safleoedd a allai fod yn addas ar Ffordd Minffordd.

4.4 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion: dim

5. **Penderfyniadau Cynllunio** – dim.

6. **Ceisiadau cynllunio**

6.1 **FPL/2022/13 Glanrhyd Isaf, Fali / Dyffryn**

Cais llawn am godi sied amaethyddol ar gyfer storio peiriannau - wedi'i dynnu'n ôl.

LLANFAIR YN NEUBWLL CYNGOR CYMUNED

- 6.2 **FPL/2021/26 Ysgol Caergeiliog, Lon Bach, Caergeiliog**
Cais llawn i godi Crèche newydd - wedi'i dynnu'n ôl.
- 6.3 **HHP/2022/102 Y Felin Wen, Llanfair yn Neubwll, Caergybi/Caergybi**
Cais llawn am addasiadau ac estyniadau - wedi'u tynnu'n ôl.
- 6.4 **FPL/2022/282 Y Stablau , Caergeiliog**
Cais llawn am drosi adeilad allanol presennol yn ddwy uned llety gwyliau ynghyd â newidiadau ac estyniadau - dim gwrthwynebiad ond rhaid sicrhau mae lletai gwyliau yn unig oedd yno.
7. Cyflwynwyd a chadarnhawyd adroddiad ariannol y SCC ar gyfer y cyfnod rhwng 1.10.2022 a 31.10.2022 ynghyd â chysoniadau banc a datganiadau a chopïau o'r cyfrifon. Cyfrif cyfredol £ 27,231.57, Cyfrif deposit £3,940.64

8. Taliadau i'w gwneud:

Cyflwg (Hydref.)	£371.81	GMS – torri glaswellt	£168
Archwilio cae chwarae	£46.08		

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SCC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

9. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.

- 9.1 Graddfeydd Cyflwg Newydd i Glercod Ar gyfer 2022/23 – derbyniwyd.
- 9.2 28.11.2022 Digwyddiad wedi'i anelu at bobl 60oed +, Iorwerth Arms, Bryngwran
- 9.3 Dyddiadau Hyfforddi Tachwedd a Rhagfyr - byddai'r clerc yn profi'r system Zoom yn y Neuadd er mwyn gallu trefnu hyfforddiant grŵp.
- 9.4 Blaen Rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad Hydref 2022
- 9.5 Cynllun Rheoli Tywyn Trewan - ystyriwyd bod y cynnig yn dderbyniol.
- 9.6 Gorchymyn Traffig Arfaethedig Ffordd Minffordd – Ni chaniateir i unrhyw gerbyd basio unrhyw gerbyd modur arall sy'n symud i'r ddau gyfeiriad o bwynt 439 metr i'r de orllewin o'r gyffordd â Hunter's Rise, am bellter o 188 metr i gyfeiriad y de orllewin – roedd Cyngor Cymuned yn gefnogol o hwn.

10. Adroddiadau Aelodau – dim

11. Cyfarfod nesaf – 17 Ionawr 2023.